

## Y TRIBIWNLYS TIR AMAETHYDDOL CYMRU Adroddiad Blynyddol 2019-20 - Safonau'r Gymraeg

### 1. Cyflwyniad

Dyma ail adroddiad blynyddol y Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru ("y Tribiwnlys") ar ei gydymffurfiad â Safonau'r Gymraeg ers i'r Safonau ddod i rym ar 30 Mawrth 2017. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020.

### 2. Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Mae'r Tribiwnlys yn sicrhau cydymffurfiad gyda'r safonau cyflenwi gwasanaethau trwy:

- Darparu canllawiau i staff am sut i ymateb i ohebiaeth, ateb y ffôn a negeseuon e-bost.
- Neges ar ein llinell gymorth sy'n cynnig gwasanaeth Cymraeg i'n cwsmeriaid.
- Templedi llythyr, sy'n cynnig cyfle i gwsmeriaid ofyn am ohebiaeth yn Gymraeg yn y dyfodol.
- Mae holl ddogfennau a gynhyrchir ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog, gan gynnwys ffurflenni cais a chanllawiau.
- Mae bob tudalen ar ein gwefan ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

### 3. Safonau Llundio Polisi

Mae'r Tribiwnlys yn arfer ei swyddogaethau statudol yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n ei lywodraethu. Nid yw o fewn cylch gwaith y Tribiwnlys i ddatblygu polisi. Fodd bynnag, rydym yn ystyried effaith ein penderfyniadau gweithredol ar gyflenwi ein gwasanaethau trwy'r Gymraeg.

### 4. Safonau Cadw Cofnodion

Mae Hysbysiad Cydymffurfio y Tribiwnlys (sydd yn manylu ar y Safonau Cyflenwi Gwasanaeth, Llundio Polisi, a Chadw Cofnodion y mae'n rhaid i'r Tribiwnlys gydymffurfio â hwy) wedi'i gyhoeddi ar wefan y Tribiwnlys:

<https://tribiwnlystiramaethyddol.llyw.cymru/sites/agriculturalland/files/2019-05/180323-alt-welsh-lang-standards-compliance-notice-cy.pdf>

Rydym yn cadw cofnod o nifer y cwynion a dderbyniwn, os bydd cwyn o gwbl, mewn perthynas â chydymffurfio â'r Safonau.

### 5. Cwynion

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion mewn perthynas â gweithredu'r Safonau yn ystod y cyfnod adrodd.